

Cynllun cymhelliant Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer pynciau â blaenoriaeth 2022

Addysg Cymru 2022 Rhif. WG22-23.

Cefndir

1. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 i gynnig cymorth ariannol i unrhyw unigolyn ar gyfer galluogi unigolyn, neu mewn perthynas â galluogi unigolyn, i gael hyfforddiant i athrawon neu i staff nad ydynt yn addysgu, hyrwyddo recriwtio athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu a thalu, neu ddarparu buddion eraill i athrawon neu i staff nad ydynt yn addysgu. Gwneir y Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer pynciau â blaenoriaeth ("y Cynllun hwn") wrth arfer y pwerau hynny.
2. Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Medi 2022 ac mae'n berthnasol i Gymru. Mae'r Cynllun hwn yn disodli Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2021 (WG20-62) ("Cynllun 2021").
 - I. Bydd darpariaethau Cynllun 2021 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2021 ond cyn 1 Medi 2022.
 - II. Bydd darpariaethau Cynllun 2020 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2020 ond cyn 1 Medi 2021.
 - III. Bydd darpariaethau Cynllun 2019 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond cyn 1 Medi 2020.
 - IV. Bydd darpariaethau Cynllun 2018 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2018 ond cyn 1 Medi 2019.
 - V. Bydd darpariaethau Cynllun 2017 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2017 ond cyn 1 Medi 2018.
3. Mae Gweinidogion Cymru, o dan adran 10 o Ddeddf Addysg 1996 (sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo addysg pobl Cymru), yn cyhoeddi'r canllawiau anstatudol hyn ar y Cynllun i gynorthwyo myfyrwyr a darparwyr rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon achrededig sy'n arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Cynllun hwn.

Crynodeb o'r Cynllun hwn

4. Wrth arfer pwerau Gweinidogion Cymru o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002, mae'r Cynllun hwn yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru dalu grantiau ar ffurf cymhellion i unigolion cymwys ddilyn rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) ôl-raddedig gymwys sy'n arwain at ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) yng Nghymru mewn pynciau penodedig. O dan adrannau 15 ac 16 o Ddeddf Addysg 2002, caniateir rhoi unrhyw gymorth ariannol ar unrhyw ffurf ac ar unrhyw delerau sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer absoliwt i benderfynu pa raglenni a phynciau sy'n gymwys o dan y Cynllun hwn. Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ynghylch a fydd unrhyw daliad o dan y Cynllun hwn yn cael ei wneud i unrhyw unigolyn cymwys yn derfynol.

5. Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu nifer y rhandaliadau a phryd y telir rhandaliadau i unigolion cymwys. Bydd talu'r grant cymell fel arfer yn cael ei rannu'n dri rhandaliad: gellir talu'r rhandaliad cyntaf yn ystod rhaglen AGA achrededig gymwys (rhandaliad yn ystod y rhaglen), yr ail ar ôl i'r unigolyn cymwys lwyddo i ennill Statws Athro Cymwysedig (rhandaliad SAC), a'r trydydd pan fydd yr unigolyn wedi cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n foddhaol (rhandaliad terfynol).

Dehongli

6. Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, at ddibenion y Cynllun hwn:

mae "rhaglen hyfforddi athrawon ôl-raddedig achrededig" ("*accredited postgraduate teacher training programme*") yn golygu rhaglen a achredwyd gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg¹, a sefydlwyd yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017;

mae "cyflogedig" ("*employed*") yn golygu o dan contract cyflogaeth neu i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd arall heblaw o dan contract cyflogaeth a dylid dehongli "cyflogaeth" ("*employment*") yn unol â hynny;

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" ("*employment-based teacher training scheme*") yw cynllun a wneir o dan reoliad 8 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012, gan gynnwys unrhyw gynllun diwygiedig neu gynllun newydd a gyflwynwyd;

mae i "athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig" ("*qualified teacher*") yr ystyr a roddir i "*qualified teacher*" gan adran 132(1) o Ddeddf Addysg 2002: sef "a person who satisfies requirements specified in regulations"² a wnaed o dan yr adran honno;

ystyr "rhaglen AGA ôl-raddedig" ("*postgraduate ITE programme*") yw rhaglen addysg gychwynnol athrawon ôl-raddedig achrededig amser llawn, rhan-amser neu hyblyg, a ddarperir mewn sefydliad yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn mae "hyblyg" yn dynodi bod hyd a phatrwm y rhaglen wedi eu penderfynu yn ôl profiad ac anghenion hyfforddiant y myfyriwr.

Grantiau cymell

7. Caiff Gweinidogion Cymru, yn ôl eu disgresiwn absoliwt, dalu grantiau o dan y paragraff hwn ("grantiau cymell") ar ffurf cymhellion i unigolion sy'n bodloni gofynion paragraffau 9, 10, 11, 12 a 13, yn amodol ar baragraff 8.

¹ Y cyfeirir ato yn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017 fel y pwyllgor achredu hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol.

² Y Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 (OS 2012/724 (Cy. 2012/724 (Cy. 96))).

8. Mae'r grantiau a roddir o dan y Cynllun hwn yn ddarostyngedig i'r amodau a bennir ym mharagraffau 14 i 20
9. Er mwyn bod yn gymwys i gael grant cymell, rhaid i'r unigolyn: -
- (a) fod yn astudio, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, un neu ragor o'r pynciau â blaenoriaeth neu'r cyfnodau canlynol fel rhan o raglen AGA ôl-raddedig uwchradd gymwys: Bioleg, Cemeg, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth, Mathemateg, Ieithoedd Tramor Modern (ITM), Ffiseg a/neu Gymraeg; a
 - (b) pan dderbynnir yr unigolion i'r rhaglen AGA ôl-raddedig uwchradd gymwys, bod yn ddeiliad gradd gyntaf neu gymhwyster cyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig neu radd gyfwerth neu gymhwyster arall cyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad tramor, o ddosbarth cyntaf, 2.1 neu 2.2, neu PhD neu radd Meistr neu gyfwerth. Nid yw'n ofynnol bod y radd gyntaf neu'r cymhwyster cyfwerth yn yr un pwnc â'r pwnc sy'n cael ei astudio ar y rhaglen AGA ôl-raddedig.

Pwy sy'n gymwys i gael grantiau hyfforddi

10. I fod yn gymwys ar gyfer pob rhandaliad o'r grant cymell, rhaid i unigolyn fodloni'r meini prawf unigol ar gyfer pob cyfnod talu fel y nodir isod.
11. Er mwyn bod yn gymwys i gael grant hyfforddi, rhaid i'r unigolyn:-
- (a) ddilyn rhaglen AGA ôl-raddedig gymwys yng Nghymru sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2022 ond cyn 1 Medi 2023;
 - (b) bod yn fyfyrwr cymwys â hawl ganddo i gael cymorth ariannol o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac sydd mewn grym ar y pryd, fel y mae'r rheoliadau hynny yn gymwys i'r cwrs hwnnw³;
 - (c) peidio â bod wedi cymhwyso fel athro neu athrawes eisoes;
 - (d) peidio â bod wedi ei gyflogi i addysgu mewn ysgol neu sefydliad arall fel athro neu athrawes pan fydd yn dechrau ar ei raglen AGA ôl-raddedig gymwys yn unol â 9(a) uchod;
 - (e) peidio â bod yn cymryd rhan mewn hyfforddiant a drefnwyd o dan unrhyw gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, yn cynnwys TAR cyflogedig;
 - (f) peidio â bod yn dilyn cwrs addysg bellach o unrhyw fath;
12. I fod yn gymwys i gael rhandaliad **SAC** o grant cymell, ar ôl cwblhau rhaglen AGA ac ar ôl dyfarnu SAC, rhaid i fyfyrwr:
- I. fodloni'r gofynion cymhwysa ar gyfer y grant pwnc â blaenoriaeth a bod wedi cael yr holl daliadau cymell cymwys yn ystod eu rhaglen AGA

³ Y Rheoliadau sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth gymorth i fyfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau ar neu ar ôl 1 Awst 2018 yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (Rhif OS 191 (Cy. 42)). Bydd y Rheoliadau hyn yn parhau i fod mewn grym yn ystod blwyddyn academiaidd 2021/22.

- II. fod wedi cwblhau rhaglen AGA gymwys yn llwyddiannus ac ennill Statws Athro Cymwysedig yn unol â Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012
13. Er mwyn bod yn gymwys i gael rhandaliad terfynol o grant cymell, ar ôl cwblhau'r cyfnod ymsefydlu, rhaid i athrawon newydd gymhwyso:
- I. fod wedi bodloni'r gofynion cymhwysra ar gyfer y grant pwnc â blaenoriaeth a bod wedi cael yr holl daliadau cymell cymwys yn ystod eu rhaglen AGA ac ar ôl dyfarnu SAC
 - II. bod wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus, a thystysgrif ymsefydlu wedi'i dyfarnu, o fewn tair blynedd ar ôl ennill Statws Athro Cymwysedig mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol (Cymru) 2015.

Amodau

14. Ni thelir grant i unigolyn o dan baragraff 7 oni fydd wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru ym mha bynnag ffurf, ar ba bynnag adeg a chan gynnwys pa bynnag fanylion y caiff Gweinidogion Cymru eu penderfynu o bryd i'w gilydd.
15. Caiff Gweinidogion Cymru, yn ôl eu disgresiwn, benderfynu peidio â thalu grant cymell i unigolion a gafodd eu derbyn ar raglen AGA ôl-raddedig wedi i'r rhaglen honno gyrraedd y targed derbyn ar ei chyfer (fel y penderfynwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg).
16. Ni fydd unigolyn sy'n gymwys i gael grant cymell ac sy'n ymuno â rhaglen AGA ôl-raddedig, ond sy'n gadael ei raglen cyn ei chwblhau, neu sy'n methu â chael SAC neu gwblhau cyfnod ymsefydlu cyflawn yn foddhaol, fel y bo'n berthnasol, yn gymwys i gael unrhyw randaliadau grant pellach sy'n ychwanegol at y rhai a dalwyd eisoes i'r unigolyn, yn unol ag unrhyw ganllawiau a rhaglen daliadau a lunnir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd.
17. Bydd grantiau cymell (boed yn rhandaliadau yn ystod y rhaglen, rhandaliadau SAC neu randaliadau terfynol) a all fod yn ddyledus i unigolion cymwys a ddechreuodd raglen gymwys mewn un flwyddyn academiaidd ond yna, yn dilyn gohirio, yn aildechrau'r rhaglen yn y flwyddyn academiaidd nesaf, yn parhau i gael eu talu ar y gyfradd grant cymell berthnasol (os oes un) o dan y Cynllun a oedd yn gymwys yn y flwyddyn academiaidd y dechreuodd eu hastudiaethau i ddechrau oni fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu'n wahanol yn ôl eu disgresiwn, yn ysgrifenedig.
18. Pan fo unigolyn sy'n gymwys o dan y Cynllun hwn, cyn 1 Medi 2022, wedi derbyn, naill ai'n llawn neu'n rhannol, unrhyw daliadau grant cymell o dan unrhyw gynlluniau neu drefniadau eraill mewn cysylltiad ag ymgymryd ag addysg gychwynnol athrawon, bydd y taliadau grant sy'n ddyledus iddynt o dan y Cynllun hwn yn cael eu lleihau gan swm sy'n cyfateb i'r taliadau grant a dderbyniwyd ganddynt yn flaenorol o dan y cynlluniau neu'r trefniadau eraill hynny. Mae hyn hefyd yn berthnasol i grantiau a dderbynnir gan unigolion cymwys cyn 1 Medi 2022 o dan unrhyw drefniadau sy'n berthnasol yn Lloegr y bodlonwyd Gweinidogion Cymru eu bod yn cyfateb i'r rhai a wnaed mewn perthynas â grantiau cymell yn unol â'r Cynllun hwn.

19. Gellir cadw taliadau yn ôl sy'n ddyledus i fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl o raglen AGA, nas cyflawnwyd SAC neu a fethodd â dechrau neu gwblhau eu cyfnod ymsefydlu, yn unol ag unrhyw ganllawiau a raglen daliadau a gynhyrchir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd.
20. Caiff Gweinidogion Cymru fynnu bod rhan neu'r cyfan o unrhyw grant a dalwyd o dan baragraff 7 yn cael ei ad-dalu:-
- (a) os yw'r derbynnydd, ar ôl cael unrhyw randaliad o'r grant, yn methu â bodloni unrhyw feini prawf cymhwysra mewn perthynas â rhandaliad dilynol;
 - (b) os yw'r derbynnydd, yn ei gais am grant neu mewn cysylltiad â'r cais hwnnw, wedi darparu gwybodaeth ffug neu wybodaeth sy'n gamarweiniol mewn ffordd berthnasol;
 - (c) os bydd tystiolaeth nad oedd derbynnydd y grant erioed yn bwriadu cwblhau'r raglen AGA neu, ar ôl ei chwblhau, fynd i addysgu.


Talu'r grant

21. Gellir talu grantiau o dan baragraff 7 naill ai mewn pa bynnag nifer o randaliadau, ac ar ba bynnag adegau, a benderfynir gan Weinidogion Cymru.
22. Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu cyllid i sefydliad sy'n darparu rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon ôl-raddedig achrededig sy'n gymwys ar gyfer talu unigolyn cymwys sydd ar raglen AGA ôl-raddedig gymwys, ar ba bynnag adegau a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.
23. Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu arian i Gyngor y Gweithlu Addysg, ar yr adegau hynny y caiff Gweinidogion Cymru benderfynu arnynt, i'w talu i unigolyn cymwys, ar yr adegau hynny ar ôl i'r unigolyn cymwys gwblhau ei gyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus.

Gweinyddu

24. Caiff Gweinidogion Cymru wneud taliad i sefydliadau sy'n darparu rhaglenni AGA ôl-raddedig achrededig sy'n cael cyllid o dan baragraff 22 i gydnabod y costau gweinyddol a chostau cysylltiedig eraill sy'n gysylltiedig â gwneud taliadau o dan y paragraff hwnnw. Bydd angen i'r sefydliadau, fel rhan o unrhyw gyfryw daliad, dalu sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (y cyfeirir atynt ym mharagraff 3).
25. Caiff Gweinidogion Cymru roi taliad i Gyngor y Gweithlu Addysg i gydnabod y costau gweinyddol a chostau cysylltiedig eraill sy'n gysylltiedig â gwneud taliadau o dan baragraff 23. Bydd angen i Gyngor y Gweithlu Addysg, fel rhan o unrhyw gyfryw daliad, dalu sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (y cyfeirir atynt ym mharagraff 3).

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a series of loops and a horizontal line.

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Dyddiedig